OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2010 Rhif 1461(Cy. 133)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) 2010

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen yn ardal gorfodi sifil ac yn ardal gorfodi arbennig at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Effaith ymarferol y Gorchymyn yw galluogi Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd i orfodi'r gyfraith ar dramgwyddau parcio o fewn yr ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn. Yn hytrach na thrwy'r heddlu neu wardeiniaid traffig mewn cyd-destun cyfraith trosedd, caiff y gyfraith hon ei gorfodi drwy gyfundrefn cyfraith sifil.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2010 Rhif (Cy. )

# TRAFFIC FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Mai 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *21 Mai 2010* |
| *Yn dod i rym* | *5 Gorffennaf 2010* |

Gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraff 8(1) o Atodlen 8 a pharagraff 3(1) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru (**2**).

Mae Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan y pwerau hyn mewn cysylltiad â rhan o'i ardal.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phrif swyddog Heddlu De Cymru yn unol â gofynion paragraff 8(3) o Atodlen 8 a pharagraff 3(4) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) 2010 a daw i rym ar 5 Gorffennaf 2010.

---

(**1**) 2004 p. 18.
(**2**) Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â hi Gweinidogion Cymru yw'r 'awdurdod cenedlaethol priodol' o ran Cymru o dan adran 92(1) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

### Dynodi ardal gorfodi sifil ac ardal gorfodi arbennig

**2.** Mae Gweinidogion Cymru'n dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen yn—

(a) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio; a

(b) ardal gorfodi arbennig.

*Ieuan Wyn Jones*

Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

19 Mai 2010

YR ATODLEN

Erthygl 2

# Ardal a ddynodir yn ardal gorfodi sifil o ran tramgwyddau parcio ac yn ardal gorfodi arbennig

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r cyfan o ddinas a sir Caerdydd ac eithrio—

(a) Traffordd yr M4 a’i slipffyrdd, gan gynnwys y slipffyrdd gogleddol a deheuol i Gyffordd 32 a’r gerbytffordd gylchdroi (A4054) o amgylch Cyffordd 32;

(b) yr A470, gan gynnwys ei slipffyrdd, o’r ffin â bwrdeistref sirol Rhondda Cynon Taf, sydd oddeutu 240 metr i’r gogledd o gylchfan Ynys Bridge y B4262, hyd at ei chyffordd â ffordd Pant-mawr;

(c) yr A48(M) a’r A48 o’r ffin â dinas Casnewydd, sydd oddeutu 800 metr i’r dwyrain o drosbont cyffordd Llaneirwg, hyd at drosbont Radyr Place, 470 metr i’r gorllewin o Gyfnewidfa Gabalfa, gan gynnwys yr holl slipffyrdd a’r cerbytffyrdd cylchredol yng nghyfnewidfa Ffordd Gyswllt Pentwyn (A4232) a chyfnewidfa Llanedern (A4161);

(ch) yr A4232 o Gyffordd 30 yr M4 gan gynnwys ei cherbytffordd gylchredol hyd at ei chyffordd â’r A48;

(d) yr A4161 o’i chyffordd â chyfnewidfa Pentwyn yr A48 hyd at ei chyffordd â’r A4232, gan gynnwys ei slipffyrdd i gylchfan Heol Casnewydd;

(dd) yr A4232 o’i chyffordd â’r A4161 hyd at ei chyffordd â chylchfan Lamby Way/ Rover Way;

(e) yr A4232, gan gynnwys ei slipffyrdd, o Gyffordd 33 yr M4 (gan gynnwys ei cherbytffordd gylchdroi) hyd at ei chyffordd â’r A4234, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Queen’s Gate a’r cyswllt â’r gylchfan yng Nghainc Neuadd y Sir;

(f) yr A4234 o’i chyffordd ag Adam Street hyd at ei chyffordd â chylchfan Neuadd y Sir, gan gynnwys y gyffordd ryngol â’r A4232 a Chainc Neuadd y Sir; ac

(ff) yr A4055 o, a chan gynnwys, cerbytffordd gylchredol cyfnewidfa Ferry Road y A4232 tua’r de a thua’r gorllewin am bellter o tua 575 metr, hyd at y ffin â bwrdeistref sirol Bro Morgannwg.